# Cefnogi unigolion i gadw eu cartrefi'n lân, saff a diogel

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi'n lân, saff a diogel. Mae hyn yn cynnwys eu cefnogi i gael nwyddau i'r cartref, a'u storio, yn ogystal â'u cefnogi i gadw eu cartrefi'n saff a diogel.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
2. cefnogi unigolion ac eraill i nodi’r ffyrdd y gellir sicrhau bod eu cartrefi’n lân ac yn ddiogel
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i ganfod beth mae unigolion yn gallu ei wneud drostynt ei hunain a gyda beth maen nhw angen cymorth
4. gweithio mewn partneriaeth i gytuno ar sut y bydd cymorth yn cael ei roi yn unol â dewisiadau ac anghenion unigolion
5. cefnogi unigolion i nodi a chael gafael ar y cymorth a’r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
6. cefnogi unigolion i nodi, cael a storio nwyddau i’r cartref
7. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i gadw eu cartrefi’n lân
8. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i sicrhau bod eu cartrefi’n ddiogel
9. cefnogi unigolion ac eraill i roi adborth ar sut y llwyddwyd i gwrdd â’u dewisiadau a’u hanghenion i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
10. cyfrannu at yr adborth ar sut y llwyddwyd i gwrdd â dewisiadau ac anghenion unigolion i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
11. gweithio mewn partneriaeth â phawb sy'n rhan o’r gwaith hwn er mwyn cytuno ar unrhyw newidiadau i'r cymorth sydd ei angen i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
12. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
13. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion, a sut mae adolygu a gwerthuso'r wybodaeth honno, a sut mae cadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
2. sut mae cael gafael ar yr asesiad risg ar gyfer unigolion yn amgylchedd y cartref, a’i ddilyn
3. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y cymorth sydd ei angen i gadw cartrefi unigolion yn lân, saff a diogel
4. dylanwad diwylliant a chefndir ar arferion unigolion o ran glanweithdra a diogelwch
5. sut mae storio nwyddau i'r cartref yn ddiogel, a risgiau posibl storio, defnyddio a gwaredu’n anniogel ar unigolion a'r amgylchedd
6. pwysigrwydd glendid yn amgylchedd cartref yr unigolyn
7. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
8. y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â threfniadau diogelu’r cartref
9. sut mae annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
10. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i gadw’u cartrefi’n lân, saff a diogel
11. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth gadw cartrefi’n lân, saff a diogel
12. y mathau o adnoddau a chymorth ychwanegol a all gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
13. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adolygu a rhoi adborth ar y cymorth i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
14. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau unigolion effeithio ar y cymorth sydd ei angen i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
15. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
16. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
17. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel
18. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi’n lân, saff a diogel

19. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi'n lân, saff a diogel
20. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi'n lân, saff a diogel
21. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi'n lân, saff a diogel, a sut i fynd i'r afael â hyn
22. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion i gadw eu cartrefi'n lân, saff a diogel

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi unigolion i gadw eu cartrefi'n lân, saff a diogel

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD231 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Glan, Saff, Diogel, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |